# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Peter Black | Adran Etholiadol: | Cwmbwrla |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roeddwn yn mynd i gyfarfodydd PACT misol ac yn ymdrin â materion a godwyd gyda swyddogion. Defnyddiais fy Nghyllideb Gwella Amgylcheddol Cynghorwyr ar gyfer cilfannau parcio preswylwyr, llinellau melyn a chilfannau parcio i'r anabl yn y ward a'r nodyn atgoffa i ategu mesurau rheoli traffig sy'n gysylltiedig â'r ysgol newydd, gan gynnwys lleihau cyflymder ar Heol San Ioan.

Roeddwn yn ymgyrchu dros ysgol newydd Burlais ac yn gweithio gyda swyddogion ar ymgynghori, rheoli traffig a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol newydd.

Rwy'n ymdrin â materion yn rheolaidd gyda swyddogion ynghylch glanhau, tyllau yn y ffyrdd ac arwynebau palmentydd gwael yn ogystal â methiant y cyngor i roi mesurau effeithiol ar waith a gorfodi yn erbyn baw cŵn.

Trefnais welliannau i rannau cymunedol mewn rhai blociau o fflatiau yng Nghilgant Brondeg, gwelliannau i faes parcio ar gyfer fflatiau'r cyngor yn Stryd David, gwelliannau i ardd y tu cefn i fflatiau 81-91 Heol Maesglas. Trefnais osod gât beic modur ar dir Gwalia gyferbyn â 374 a 382 Heol Pentregethin. Gweithiais gyda'r cyngor ac asiantaethau eraill i dacluso safle hen Gapel Libanus. Trefnais i'r Tîm NEAT dacluso nifer o lonydd a mannau eraill yn y ward, gan gynnwys tir gyferbyn â llwybr cerdded ar waelod Lôn Vicarage. Hefyd, trefnais i nifer o welliannau amgylcheddol a diogelwch i'r cyfadeilad tai lloches yn Heol Llwyncethin.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 10 | / | 17 | 59 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 7 | 57 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **14** | **/** | **24** | **58** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Tai Fforddiadwy | 0 | | 1 | 0 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Burlais ac Ysgol Gyfun Pentrehafod.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ymgyrchais yn erbyn cynigion ym mhapurau cyngyllideb gweinyddiaeth Llafur i godi tâl ar gyfer trwyddedau parcio preswylwyr.

Cefnogais newidiadau i gyllideb y cyngor i leihau codiad treth y cyngor a rhoi £3.7m yn ôl i ysgolion.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Arbenigo ym maes tai a chyllid llywodraeth leol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Parhau i ymdrin â gwaith achos i etholwyr ar fudd-daliadau a Bathodynnau Glas.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 05.10.15 |